# CWESTIYNAU CYFFREDIN


**Cefndir** ..... **1**

Cwestiwn 1. Pam mae'r Panel Arbenigol wedi cael ei sefydlu? ..... 1

Cwestiwn 2. Pwy sy'n eistedd ar y Panel? ..... 1

Cwestiwn 3. Sut y penodwyd y Panel? ..... 2

Cwestiwn 4. Faint yr oedd gwaith y Panel Arbenigol yn ei gostio? ..... 2

**Capasiti** ..... **3**

Cwestiwn 5. Beth mae Aelodau'r Cynulliad yn ei wneud, a pham mae'n bwysig? ..... 3

Cwestiwn 6. Pam mae'r Panel yn credu bod angen mwy o Aelodau? ..... 3

Cwestiwn 7. A allai Aelodau'r Cynulliad weithio'n wahanol, neu gyfarfod am fwy o amser? ..... 4

Cwestiwn 8. Faint fydd mwy o Aelodau'r Cynulliad yn ei gostio? ..... 5

Cwestiwn 9. A oes unrhyw enghreifftiau o wledydd eraill yn cynyddu nifer y cynrychiolwyr etholedig sydd ganddynt? ..... 6

**System etholiadol** ..... **7**

Cwestiwn 10. Pam newid y system etholiadol nawr? ..... 7

Cwestiwn 11. Ym mhle arall y caiff y systemau arfaethedig eu defnyddio? ..... 7

Cwestiwn 12. Pa systemau eraill y gwnaethoch edrych arnynt a'u gwrthod? ..... 8

**Cynulliad mwy amrywiol** ..... **9**

Cwestiwn 13. Pam mae'r Panel wedi argymell rhannu swyddi? Sut y byddai'n gweithio? ..... 9

Cwestiwn 14. Pam mae'r Panel wedi gwneud argymhellion ar gyfer cwotâu rhyw? Sut y bydden nhw'n gweithio? ..... 10

**Oed pleidleisio** ..... **11**

Cwestiwn 15. Pam newid yr oedran pleidleisio lleiaf nawr? ..... 11

Cwestiwn 16. A yw pobl ifanc 16 oed yn ddigon aeddfed i bleidleisio? ..... 11

Cwestiwn 17. Ble arall y gall pobl bleidleisio yn 16 oed? ..... 12

**Beth sy'n digwydd nesaf?** ..... **13**

Cwestiwn 18. Sut mae pleidiau gwleidyddol wedi bod yn rhan o waith y Panel? ..... 13

Cwestiwn 19. A fyddai angen deddfwriaeth i wneud y newidiadau hyn? ..... 13

Cwestiwn 20. Pryd byddai unrhyw newidiadau yn digwydd? ..... 13

Cwestiwn 21. Beth fydd yn digwydd nesaf? Sut y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn? ..... 14

# CEFNDIR

## Cwestiwn 1. Pam mae'r Panel Arbenigol wedi cael ei sefydlu?

### Ateb:

Mae'r ffaith bod y Cynulliad yn rhy fach ac wedi'i orymestyn wedi'i chydnabod ers dyddiau cynharaf datganoli. Pwysleisiodd Comisiwn Richard hyn dair blynedd ar ddeg yn ôl. Ailadroddodd Comisiwn Silk y neges yn 2014. Tynnodd Comisiwn y Cynulliad sylw ato ddwy flynedd yn ôl.

Ym mis Chwefror 2017, penodwyd y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad gan y Llywydd a Chomisiwn y Cynulliad. Gofynnwyd i ni wneud argymhellion ar:

- nifer yr Aelodau sydd eu hangen ar y Cynulliad,
- y system y dylid ei defnyddio i'w hethol, ac
- oedran pleidleisio isaf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad.

Gofynnwyd i ni gyflwyno adroddiad erbyn hydref 2017, ac i wneud argymhellion a fyddai, ar yr amod y cyflawnir y consensws gwleidyddol gofynnol, yn cael eu gweithredu mewn pryd ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2021.

Cyhoeddwyd ein hadroddiad ar 12 Rhagfyr 2017.

## Cwestiwn 2. Pwy sy'n eistedd ar y Panel?

### Ateb:

Dyma aelodau'r Panel:

- Yr Athro Laura McAllister (Cadeirydd) – Athro Polisi Cyhoeddus a Llywodraethiant Cymru yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru
- Yr Athro Rosie Campbell – Athro Gwleidyddiaeth yn Birkbeck, Prifysgol Llundain, a'r Athro Sarah Childs – Athro Gwleidyddiaeth a Rhywedd yn Birckbeck, Prifysgol Llundain (aelodaeth ar y cyd)
- Rob Clements – cyn-Gyfarwyddwr Darparu Gwasanaethau yn Nhŷ'r Cyffredin

- Yr Athro David Farrell – Cadeirydd Gwleidyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Dulyn
- Y Dr Alan Renwick – Dirprwy Gyfarwyddwr Uned y Cyfansoddiad yng Ngholeg Prifysgol Llundain
- Syr Paul Silk – Cadeirydd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru rhwng 2011 a 2014, a chyn-Glerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cwestiwn 3. Sut y penodwyd y Panel?

### Ateb:

Penodwyd aelodau'r panel gan Gomisiwn y Cynulliad. Rhyngddynt, mae ganddynt arbenigedd helaeth ym meysydd systemau etholiadol, gwaith a gallu seneddau, sefyllfa gyfansoddiadol y Cynulliad Cenedlaethol, a materion ehangach yn ymwneud â llywodraethu, gan gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth ac ymgysylltu. Mae eu harbenigedd yn eu rhoi ymhlith y gorau yn Ewrop yn eu meysydd.

## Cwestiwn 4. Faint yr oedd gwaith y Panel Arbenigol yn ei gostio?

### Ateb:

Rydym ni, aelodau'r Panel, yn arbenigwyr yn ein meysydd ein hunain. Bydd ein hadroddiad a'n hargymhellion yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn wleidyddol ddiduedd, gan nodi opsiynau ar gyfer diwygio rhai o drefniadau cyfansoddiadol mwyaf sylfaenol Cymru.

Rydym wedi cael ein talu am ein gwaith yn unol â'r cyfraddau sy'n cael eu talu i ddeiliaid swyddi tebyg eraill sy'n cynghori'r Cynulliad. Y cyfraddau dyddiol yw £333 ar gyfer cadeirydd y Panel a £267 ar gyfer aelodau'r Panel. Cyfanswm y costau ar gyfer ein gwaith oedd tua £38,000 ac mae'r costau hyn yn cael eu manylu yn ein hadroddiad.

# CAPASITI

## Cwestiwn 5. Beth mae Aelodau'r Cynulliad yn ei wneud, a pham mae'n bwysig?

### Ateb:

Mae Aelodau'r Cynulliad yn cynrychioli buddiannau eu hetholwyr a'u cymunedau. Maent yn craffu ar bolisi, gwariant, trethi a deddfwriaeth y llywodraeth i wella canlyniadau i bobl Cymru, ac maent hefyd yn gwneud deddfau i Gymru. Mae Aelodau'n ymgymryd â gwaith achos ar gyfer unigolion neu grwpiau, ac yn ymgymryd â gwaith ymgyrchu lleol a chenedlaethol. Maent yn weithredol yn yr etholaethau a'r rhanbarthau maent yn eu cynrychioli. Yn benodol, mae cyfnodau toriad yn rhoi cyfle nad yw ar gael cymaint yn ystod tymor y Cynulliad i Aelodau fynd i ddigwyddiadau ac ymgysylltu â'r gymuned leol.

Yn ogystal, mae rhai Aelodau'r Cynulliad hefyd yn cyflawni rolau arbenigol, gan gynnwys Prif Weinidog, Ysgrifenyddion y Cabinet, Cwnsler Cyffredinol, Llywydd, Dirprwy Lywydd, cadeiryddion pwyllgorau a Chomisiynwyr y Cynulliad.

## Cwestiwn 6. Pam mae'r Panel yn credu bod angen mwy o Aelodau?

### Ateb:

Cyrhaeddom ein casgliadau ar ôl archwilio'r mater o lawer o safbwyntiau:

- rôl a phwerau newidiol y Cynulliad;
- y camau a gymerwyd, neu y gellid eu cymryd, i gynyddu gallu y Cynulliad heb fwy o Aelodau;
- y rolau cymhleth ac amrywiol y mae Aelodau yn eu cyflawni;
- cyfrifoldeb yr Aelodau am graffu deddfwriaethol ac ariannol a chraffu ar bolisi, a goruchwylio Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru;
- capasiti system pwyllgorau'r Cynulliad; a
- sut mae'r Cynulliad yn cymharu â deddfwrfeydd cyfatebol mewn mannau eraill yn y DU a ledled y byd.

Arweiniodd ein holl waith dadansoddi at yr un casgliad: bod maint priodol y Cynulliad yn y dyfodol rhwng 80 a 90 o Aelodau. Byddai cynyddu'r Cynulliad i faint o fewn yr ystod honno yn arwain at fuddion gwerthfawr o ran capasiti'r sefydliad a buddion cyfatebol ar gyfer pobl Cymru.

O fewn yr ystod hwn, byddai gwahaniaeth amlwg rhwng y pennau isaf ac uchaf. Byddai ffigwr yn agos at 80 yn sicr yn cryfhau'r sefydliad ac yn ei alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol. Ar y pen uchaf, byddai'r buddion yn fwy, gan ddarparu gwahaniaeth ystyrlon yng ngallu llawer o Aelodau i arbenigo, gyda manteision canlyniadol ar gyfer craffu a chynrychiolaeth. Byddai pen uchaf yr ystod hefyd yn lleihau'r perygl y byddai angen ailedrych ar y cwestiwn o gapasiti yn y dyfodol agos, pe bai cyfrifoldebau'r Cynulliad yn cynyddu ymhellach. Ein dewis ni, felly, yw bod maint y Cynulliad yn agosach at 90 Aelod.

Mae rôl craffu a goruchwylio'r Cynulliad, os caiff ei chyflawni'n effeithiol, yn effeithio'n gadarnhaol ar fywydau pobl yng Nghymru trwy wella ansawdd deddfwriaeth Cymru a dylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru. Byddai hyd yn oed welliannau bach wrth graffu ar wariant a'r gwaith o lunio polisïau Llywodraeth Cymru yn arwain at fuddion sylweddol i'r trethdalwr.

## Cwestiwn 7. A allai Aelodau'r Cynulliad weithio'n wahanol, neu gyfarfod am fwy o amser?

### Ateb:

Yn ddiweddar, gwnaeth Comisiwn McCormick ar Ddiwygio Seneddol argymhellion ar sut y gallai Senedd yr Alban gynyddu ei gallu a gweithio'n fwy effeithiol. Fe wnaethom ni ystyried y rhain, yn ogystal â chamau eraill a gymerwyd neu y gellid eu cymryd i gynyddu gallu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cynulliad wedi cynyddu nifer yr oriau y mae'n cyfarfod yn y dydd, nifer y dyddiau y mae'n cyfarfod yn yr wythnos, a nifer yr wythnosau y mae'n cyfarfod yn y flwyddyn. Gallai rhagor o gynnydd mewn amser cyfarfod ffurfiol gael effaith niweidiol ar yr amser sydd ar gael i'r Aelodau ymgymryd ag ymchwil, darllen a pharatoi ar gyfer busnes pwyllgorau a Chyfarfodydd Llawn.

Yn ogystal, mae ein system o gynrychiolaeth ddemocrataidd yn dibynnu ar y cysylltiad agos rhwng Aelodau a'r pleidleiswyr y maent yn eu gwasanaethu. Mae ein hadroddiad yn manylu ar rolau amrywiol Aelodau, ac elfen bwysig ohonynt

yw'r gwaith y maent yn ei wneud y tu allan i Fae Caerdydd, yn eu hetholaethau a'u rhanbarthau - er enghraifft, mynd i ddigwyddiadau, cynnal ymgyrchoedd, a chryfhau eu dealltwriaeth o'r pwysau sy'n wynebu darparwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol. Byddai ymestyn wythnos waith y Cynulliad yn lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer y math hwn o weithgarwch, ac ar gyfer gweithio ar y gwaith achos sy'n cael ei wneud gan Aelodau ar ran etholwyr unigol a grwpiau cymunedol.

Rydym wedi ystyried y camau a gymerwyd, neu y gellid eu cymryd, i gynyddu gallu'r Cynulliad, ond daethom i'r casgliad nad ydynt wedi gwneud iawn, ac na allant, am y broblem sylfaenol sef yr amser hynod gyfyngedig sydd ar gael i ddim ond 60 aelod etholedig gyflawni eu rolau hanfodol.

## Cwestiwn 8. Faint fydd mwy o Aelodau'r Cynulliad yn ei gostio?

### Ateb:

Mae amcangyfrif Comisiwn y Cynulliad o'r costau rheolaidd blynyddol ychwanegol sy'n gysylltiedig â'n cynigion yn amrywio o ryw £6.6 miliwn (am 20 Aelod ychwanegol) i £9.6 miliwn y flwyddyn (am 30 Aelod ychwanegol). Yn 2017-18, cyllideb flynyddol y Comisiwn oedd £53.7 miliwn. Mae'r costau rheolaidd ychwanegol felly yn gyfystyr â 12 a 18 y cant o'r gyllideb yn y drefn honno.

Yn ogystal, byddai rhai costau unwaith ac am byth, yn gysylltiedig ag addasu'r Siambr a swyddfeydd yr Aelodau, er enghraifft. Mae'r Comisiwn yn amcangyfrif y byddai'r rhain oddeutu £2.4 miliwn ar gyfer 20 Aelod ychwanegol a £3.3 miliwn ar gyfer 30 Aelod ychwanegol.

O reidrwydd, mae'r amcangyfrifon cost sydd wedi cael eu darparu i ni yn seiliedig ar y gwasanaethau a'r system o gymorth ariannol sydd ar waith ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Taliadau a'r Comisiwn yn y gorffennol wedi cael eu gwneud ar sail gwneud iawn, yn rhannol o leiaf, am ddiffyg gallu'r Aelodau mewn Cynulliad o ddim ond 60 Aelod.

Rydym wedi gwneud argymhelliad clir iawn bod Bwrdd Taliadau annibynnol y Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad yn ystyried sut y gellir newid yr holl gymorth staffio, gwasanaethau ac adnoddau ariannol staff a ddarperir i'r Aelodau yn achos Cynulliad mwy, fel bod cost gweithredu ein hargymhellion yn cael ei lleihau cymaint â phosibl.

Dylai'r costau gael eu hystyried yng nghyd-destun ehangach cynrychiolaeth ddemocrataidd yng Nghymru ac effaith gadarnhaol rôl craffu a goruchwylio'r Cynulliad, gan wella ansawdd deddfwriaeth Cymru a dylanwadu ar bolisi Llywodraeth Cymru. Gallai hyd yn oed welliannau bach wrth graffu ar wariant Llywodraeth Cymru arwain at fuddiannau sylweddol i'r trethdalwr trwy sicrhau gwell ddeddfwriaeth, polisi a phenderfyniadau.

## Cwestiwn 9. A oes unrhyw enghreifftiau o wledydd eraill yn cynyddu nifer y cynrychiolwyr etholedig sydd ganddynt?

### Ateb:

Nid yw'n anghyffredin i seneddau newid eu maint, i fyny ac i lawr. Mae deddfwrfeydd taleithiau Awstralia, er enghraifft, wedi newid eu maint dros amser i adlewyrchu eu hamgylchiadau a'u blaenoriaethau penodol.

Nid oes unrhyw ddull awdurdodol penodol ar gyfer pennu maint gorau deddfwrfa ond mae ein dadansoddiad yn dangos bod y Cynulliad yn fach yn ôl unrhyw gymhariaeth leol, genedlaethol neu ryngwladol wrthrychol.

# SYSTEM ETHOLIADOL

## Cwestiwn 10. Pam newid y system etholiadol nawr?

### Ateb:

Wrth i ddatganoli yng Nghymru gyrraedd ei gam nesaf, ni all y Cynulliad barhau â dim ond 60 o Aelodau heb beryglu ei allu i gyflawni ar gyfer y bobl a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Bydd *Deddf Cymru 2017* yn rhoi i'r Cynulliad y pwerau sydd eu hangen arno i benderfynu ar nifer yr Aelodau sydd eu hangen arno i gyflawni ei waith.

Gofynnwyd inni nodi hefyd sut y dylid ethol Aelodau'r Cynulliad o 2021 ymlaen. Sbardunwyd y rhan hon o'n gwaith gan ein casgliadau ynglŷn â nifer yr aelodau y mae ar y Cynulliad eu hangen. Fodd bynnag, mae newid maint y sefydliad hefyd yn rhoi cyfle i ddiwygio ac adfywio'r system etholiadol fel bod y Cynulliad yn adlewyrchu'n well y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Y cyfnod cynharaf y gellid gweithredu ein hargymhellion yw 2021. Ar y gorau, felly, bydd rhaid i'r Cynulliad, am y pedair blynedd nesaf, geisio diwallu'r heriau enfawr y mae'n eu hwynebu â dim ond 60 o Aelodau. Os yw'r Cynulliad yn derbyn yr achos dros newid, yna nawr yw'r adeg i weithredu.

## Cwestiwn 11. Ym mhle arall y caiff y systemau arfaethedig eu defnyddio?

### Ateb:

Defnyddir y bleidlais sengl drosglwyddadwy (STV) yn Iwerddon, Gogledd Iwerddon, Malta, Senedd Awstralia, a nifer o seneddau taleithiau yn Awstralia, yn ogystal ag i ethol awdurdodau lleol yn yr Alban. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ba un a ddylai awdurdodau lleol yng Nghymru gael dewis mabwysiadu STV ar gyfer eu hetholiadau.

Mae mathau o gynrychiolaeth gyfrannol lle ceir rhestr pleidiau ymhlith y systemau etholiadol mwyaf cyffredin ar draws y byd, ac fe'u defnyddir mewn llawer o wledydd Ewropeaidd. Er enghraifft, defnyddir systemau o gynrychiolaeth gyfrannol lle ceir rhestr pleidiau gyda lefelau amrywiol o hyblygrwydd yn Awstria, Gwlad Belg, Croatia, y Weriniaeth Tsiec, Denmarc, Gwlad Groeg, Gwlad yr Iâ, Slofacia, Sweden a Norwy.

Defnyddir systemau o gynrychiolaeth gyfrannol gymysg yn yr Alban, yr Almaen, Seland Newydd a Lithwania.

## Cwestiwn 12. Pa systemau eraill y gwnaethoch edrych arnynt a'u gwrthod?

### Ateb:

Fe wnaethom ystyried ystod eang o systemau etholiadol, er enghraifft: y cyntaf i'r felin, aml-aelod cyntaf i'r felin, un rhestr genedlaethol, cynrychiolaeth gyfrannol gyda rhestr gaeedig, cynrychiolaeth gyfrannol gyda rhestr agored, y bleidlais amgen, a systemau mwyafrifol aelodau cymysg a chyfrannol cymysg aelodau deuol.

Nodwyd fframwaith o ddeg egwyddor gennym gan arfarnu'r systemau hyn yn erbyn: atebolrwydd ac effeithiolrwydd y llywodraeth, cymesuredd, atebolrwydd Aelodau, ethol Aelodau sydd â statws cyfatebol, amrywiaeth, dewis pleidleiswyr, mandad cyfatebol fel bod gan bleidleisiau tua'r un gwerth, ffiniau ystyrlon, symlrwydd, a chynaliadwyedd a'r gallu i addasu. Yn amlwg, ni all unrhyw system benodol gyflawni'n llawn yn erbyn pob un o'r egwyddorion hyn. Gwnaethom wrthod y systemau hynny nad oeddem yn hyderus y gallent ddarparu'n ddigonol yn erbyn yr egwyddorion hyn a gweithredu'n effeithiol yng Nghymru o 2021 ymlaen.

# CYNULLIAD MWY AMRYWIOL

## Cwestiwn 13. Pam mae'r Panel wedi argymell rhannu swyddi? Sut y byddai'n gweithio?

### Ateb:

Yn unol ag arfer gweithio modern yn y rhan fwyaf o broffesiynau eraill, gallai trefniant rhannu swyddi alluogi pobl o lawer o sefyllfaoedd cymdeithasol a phob cefndir a hunaniaeth ddod yn Aelodau'r Cynulliad. Yn benodol, gallai helpu i gael gwared ar rwystrau a allai fel arall atal pobl ag anableddau neu gyfrifoldebau gofalu rhag sefyll i gael eu hethol. Gallai hefyd alluogi pobl i sefyll mewn etholiad yn ogystal â pharhau i gynnal eu sgiliau proffesiynol, neu gefnogi Aelodau Cynulliad hŷn i barhau i weithio'n rhan-amser yn eu blynyddoedd hwyrach.

Yn y modd hwn, gallai trefniant rhannu swyddi gynyddu amrywiaeth y cynrychiolwyr yn y Cynulliad.

Yr egwyddor arweiniol sy'n sail i'n cynnig yw y dylid trin partneriaid rhannu swyddi fel pe baent yn un person. Mae hyn yn golygu na ddylai Aelodau'r Cynulliad sy'n rhannu swyddi greu unrhyw gostau ychwanegol i gostau un Aelod Cynulliad.

## Cwestiwn 14. Pam mae'r Panel wedi gwneud argymhellion ar gyfer cwotâu rhyw? Sut y bydden nhw'n gweithio?

### Ateb:

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol enw da mewn perthynas â chynrychiolaeth gytbwys o ran y rhywiau, a gwnaethom ystyried sut y gellid diogelu hyn. Yn 2003, y Cynulliad oedd un o'r cyrff seneddol cyntaf yn y byd i gael cynrychiolaeth gyfartal ar gyfer menywod a dynion.

Ar hyn o bryd, mae menywod yn cynrychioli 42 y cant o'r Aelodau. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r cyfartaledd rhyngwladol o 23 y cant, ond mae diwygio'r system etholiadol yn rhoi cyfle i amddiffyn yr hyn y mae Cymru wedi'i gyflawni ym maes cynrychiolaeth y rhywiau.

Rydym wedi amlinellu sut y gallai cwotâu rhyw weithio mewn perthynas ag unrhyw un o'n systemau etholiadol arfaethedig, trwy ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gyflwyno rhestri cytbwys o ymgeiswyr gwrywaidd a benywaidd.

Er na ellir cymharu'r cyd-destunau'n uniongyrchol (mae gan Iwerddon hanes o gynrychiolaeth isel gan fenywod, mae nifer fach o TDau yn cael eu dychwelyd fesul etholaeth, ac mae cwotâu yn cael eu gorfodi trwy ddarparu arian y wladwriaeth i bleidiau gwleidyddol), mae tystiolaeth gynnar yn awgrymu bod y cwota a gyflwynwyd ar gyfer y rhywiau yn etholiad cyffredinol Iwerddon yn 2016 wedi arwain at gynnydd o 90 y cant yn nifer y menywod a safodd fel ymgeiswyr a chynnydd o 40 y cant yn nifer y menywod a etholwyd yn TDau (35 yn 2016, o'i gymharu â 25 yn 2011). Dyma'r gyfran uchaf o fenywod sy'n TDau yn hanes Iwerddon.

# OED PLEIDLEISIO

## Cwestiwn 15. Pam newid yr oedran pleidleisio lleiaf nawr?

### Ateb:

Gofynnwyd inni ystyried beth ddylai'r oedran pleidleisio lleiaf fod ar gyfer etholiadau'r Cynulliad o 2021 ymlaen. Ar ôl ystyried y cyd-destun yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol, yn ogystal â'r dystiolaeth a'r ymchwil sydd ar gael, credwn y gallai gostyngiad yn yr oedran pleidleisio lleiaf i 16 fod yn ffordd rymus o godi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfranogiad ymhlith pobl ifanc os yw'n cyd-fynd ag addysg wleidyddol a dinasyddiaeth briodol, effeithiol a diduedd.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod etholiadau ag amlygrwydd uwch, megis etholiad y Cynulliad, yn fwy tebygol o arwain at fwy o bobl yn bwrw pleidlais a chyfranogiad uwch gan bleidleiswyr. Felly, mae'n ddymunol, pe bai'r oedran pleidleisio yn cael ei ostwng yng Nghymru, y dylai hyn gael ei roi ar waith yn gyntaf yn etholiadau'r Cynulliad yn hytrach nag etholiadau lleol, sydd i ddigwydd yn 2022.

Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i ostwng yr oedran pleidleisio i 16 ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Pe bai hyn yn digwydd, byddai'n anghyson, ac yn creu materion gweinyddol a gwleidyddol ychwanegol, pe na bai'r oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad o 2021 ymlaen hefyd yn llai.

## Cwestiwn 16. A yw pobl ifanc 16 oed yn ddigon aeddfed i bleidleisio?

### Ateb:

Ystyriasom ar ba oedran y mae pobl ifanc yn ymgymryd â hawliau a chyfrifoldebau gwahanol. Daethom i'r casgliad bod diffyg cysondeb a chydlyniad yn y trothwyon oedran sy'n berthnasol ac, mewn gwirionedd, nid oes un oedran penodol lle mae person ifanc yn ymgymryd â holl hawliau a chyfrifoldebau dinesydd sy'n oedolyn.

Ystyriasom hefyd a oes gan bobl 16 oed y wybodaeth wleidyddol, aeddfedrwydd ac annibyniaeth meddwl i bleidleisio. Canfu ymchwil gan y Comisiwn Etholiadol bod pobl 16 a 17 oed, yn etholiadau lleol 2017 yn yr Alban, yn ei chael yn haws na

phobl 18 i 24 oed cael gafael ar wybodaeth ar sut i fwrw eu pleidlais, ac roeddent yn llai tebygol o gael trafferth wrth lenwi eu papur pleidleisio.

Ar y cyfan, mae'r dystiolaeth yr ydym wedi'i hystyried yn awgrymu y gallai lleihau'r oedran pleidleisio i 16 o 2021 ymlaen fod yn fodd pwerus o godi ymwybyddiaeth wleidyddol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth ymysg pobl ifanc.

## Cwestiwn 17. Ble arall y gall pobl bleidleisio yn 16 oed?

### Ateb:

Yn yr Alban, Awstria, Ynys Manaw, Jersey a Guernsey, yr oedran pleidleisio lleiaf yw 16. Roedd pobl 16 a 17 oed yn gallu pleidleisio yn refferendwm annibyniaeth yr Alban a gallant bleidleisio o 16 oed mewn etholiadau lleol yn yr Alban ac yn etholiadau Senedd yr Alban.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynigion i ddeddfu i leihau'r oedran pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru o 2022.

# BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

## Cwestiwn 18. Sut mae pleidiau gwleidyddol wedi bod yn rhan o waith y Panel?

### Ateb:

Fel arbenigwyr annibynnol, ein rôl ni yw gwneud argymhellion cadarn, diduedd, wedi'u seilio ar dystiolaeth ar y materion yn ein cylch gorchwyl.

Er hynny, ni ddylid ystyried materion cyfansoddiadol sylfaenol yn hollol ar wahân oddi wrth wirioneddau gwleidyddol democratiaeth gynrychiadol. I'r perwyl hwnnw, croesawn y ffordd adeiladol y mae'r Llywydd a'r Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol y mae hi'n ei gadeirio wedi ymgysylltu â'n gwaith. Mae ein casgliadau a'n hargymhellion yn perthyn i ni, ond mae'r Grŵp Cyfeirio Gwleidyddol wedi bod yn seinfwrdd gwerthfawr wrth i'n syniadau ddatblygu.

## Cwestiwn 19. A fyddai angen deddfwriaeth i wneud y newidiadau hyn?

### Ateb:

Byddai. Byddai angen i'r Cynulliad basio Bil i weithredu unrhyw newidiadau. Bydd y pwerau i gyflwyno deddfwriaeth i newid nifer yr Aelodau a'r system etholiadol yn cael eu rhoi i'r Cynulliad o ddechrau 2018 drwy *Ddeddf Cymru 2017*.

Byddai unrhyw Fil o'r fath yn destun prosesau craffu deddfwriaethol y Cynulliad. Hefyd, byddai angen uwchfwyafrif ar y Bil yn ei gyfnod deddfwriaethol terfynol. Mae hyn yn golygu y byddai angen i o leiaf 40 o Aelodau bleidleisio o blaid y Bil.

## Cwestiwn 20. Pryd byddai unrhyw newidiadau yn digwydd?

### Ateb:

Gofynnwyd inni gyflwyno adroddiad erbyn hydref 2017 fel y gellid gwneud unrhyw newidiadau deddfwriaethol mewn pryd ar gyfer etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2021, ar yr amod y llwyddir i sicrhau'r gefnogaeth wleidyddol angenrheidiol. Er mwyn i hyn ddigwydd, byddai angen pasio deddfwriaeth erbyn haf 2019, er mwyn gwneud is-ddeddfwriaeth ddilynol, i'r Comisiwn Etholiadol

weithredu newidiadau mewn pryd ar gyfer etholiad 2021, ac i roi amser i bleidiau gwleidyddol ddewis ymgeiswyr.

## Cwestiwn 21. Beth fydd yn digwydd nesaf? Sut y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn?

### Ateb:

Bydd Comisiwn y Cynulliad bellach yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad ac edrych ar sut i symud ymlaen ag unrhyw ddiwygiadau i drefniadau etholiadol y Cynulliad. Os bydd y Comisiwn yn cyflwyno cynigion, bydd yn awyddus i roi cyfle ffurfiol i bobl leisio eu barn. Felly, mae'n debygol y bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn rhan arwyddocaol o broses y Comisiwn o ddatblygu unrhyw gynigion deddfwriaethol. Byddai Aelodau'r Cynulliad hefyd yn craffu ar unrhyw Fil fel rhan o'r broses ddeddfwriaethol.